CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Cabinet: 7 Mawrth 2022

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 7 Mawrth 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

[Yn bresennol](#)

[Cyfarfod blaenorol](#)

[Eitemau'r Prif Weinidog](#)

[Busnes y Senedd](#)

[Diwygio gwasanaethau bysiau](#)

# Yn bresennol

- Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS
- Mick Antoniw AS

- Dawn Bowden AS
- Hannah Blythyn AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Swyddogion

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa’r Prif Weinidog
- Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Mitch Theaker, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa’r Cabinet
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng COVID-19
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
- Helen Lentle, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
- Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi
- Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Dyfodol Ffyniannus
- Steve Vincent, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd
- Robbie Thomas, Pennaeth Alinio Busnes ar gyfer Seilwaith Economaidd
- Ian Taylor, Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Drafnidiaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 1: Cofnodion cyfarfodydd blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet y cofnodion dyddiedig 28 Chwefror.

# Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

## Ymosodiad ar Wcráin

2.1 Rhoddodd y Prif Weinidog wybod i'r Cabinet fod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid, wedi sicrhau ystod eang o gefnogaeth mewn ymateb i'r argyfwng dyngarol sy'n datblygu yn Wcráin. Yn ychwanegol i'r rhodd o £4m i Apêl y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau, roedd Gweinidogion yn cydweithio â Llywodraeth Leol a'r Trydydd Sector er mwyn paratoi i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag y gwrthdaro.

# Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Ystyriodd y Cabinet gynnwys grid y Cyfarfodydd Llawn. Nodwyd bod yr amser pleidleisio wedi'i drefnu at 7:45pm ar ddydd Mawrth ac o gwmpas 6:25pm ar ddydd Mercher.

# Eitem 4: Diwygio gwasanaethau bysiau – papur gwyn

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y papur a oedd yn gofyn i'r Cabinet nodi'r cynigion i ddiwygio gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

4.2 Nodwyd bod bysiau yn cyfrif am dair o bob pedair taith trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a'u bod yn sicrhau gwasanaeth sy'n allweddol bwysig i oddeutu 13% o aelwydydd nad ydynt â char. Nodwyd nad oedd y system sydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wedi'i dadreoleiddio yn sicrhau'r lefelau gofynnol i gynllunio'r rhwydwaith bysiau yn well, yn ogystal â'i wella er mwyn diwallu anghenion y cyhoedd.

4.3 Y nod oedd creu deddfwriaeth i ddylunio system a fyddai'n galluogi i'r Llywodraeth i gynyddu budd y cyhoedd o'r arian a fuddsoddir yn y system fysiau i'r eithaf. Roedd rhwydweithiau presennol wedi'u cynllunio gan weithredwyr i gynyddu eu helw o'r system i'r eithaf, gan alluogi i Lywodraeth Leol gontractio gwasanaethau i lenwi bylchau hanfodol yn unig.

4.4 Byddai masnachfreinio cenedlaethol yn cael ei gyflwyno er mwyn helpu i integreiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gydag amserlenni priodol, strwythurau prisiau a thrwy system docynnu. Byddai hyn hefyd yn galluogi i'r Llywodraeth i gymryd rheolaeth dros refeniw'r fasnachfraint. Gellid defnyddio hyn i groes-sybsideiddio gwasanaethau rhwng llwybrau proffidiol a'r rhai hynny y mae angen cyllid ychwanegol arnynt.

4.5 Byddai hyn o gymorth i wella gwasanaethau, gan eu gwneud yn fwy deniadol a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl yn well. Nodwyd bod hyn yn gam allweddol i dorri'r ddibyniaeth ar geir preifat i ysgogi'r lefel o newid dulliau teithio sydd ei angen er mwyn cyflawni Cymru Sero Net.

4.6 Croesawodd y Cabinet y papur a chytunwyd y byddai'r gwelliannau arfaethedig hefyd o gymorth i fynd i'r afael â thlodi gan leihau anghydraddoldebau. Roedd angen sicrhau bod cerbydau a chyfleusterau yn hygyrch i bawb, yn ogystal â sicrhau bod bysiau yn ddiogel i deithwyr, yn enwedig menywod.

4.7 Nododd y Cabinet y papur a nodwyd y byddai'r Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi cyn Toriad y Pasg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cyfarfod y Cabinet: 7 Mawrth 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.